



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau uchel iawn

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Medi 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y cynnig i wahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau uchel iawn. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Tai ac Adfywio ar 23 Mai 2018 y byddai'n ymgynghori ynghylch gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy mewn systemau cladin ar adeiladau preswyl uchel iawn.

<https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/hackitt/?skip=1&lang=cy>

Cynigir i'r ymgynghoriad cymryd 8 wythnos (yn hytrach na'r 12 wythnos draddodiadol). Mae'r rôl a chwaraewyd gan ddeunyddiau llosgadwy yn nhân Grenfell yn destun pryder cyhoeddus sylweddol parhaus yn rhannol o ganlyniad i'r dystiolaeth a ddarperir i'r ymchwiliad cyhoeddus. Roedd y penderfyniad a wnaed i ymgynghori ar wahardd deunyddiau o'r fath yn y datganiad a wnaed gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ar 23 Mai 2018 yn adlewyrchu'r pryder hwnnw a'r angen i'r Llywodraeth weithredu'n gyflym. Ein barn ni drwy fyrhau'r cyfnod ymgynghori yn ateb yr angen i weithredu'n gynnar cyhyd a chaniatáu digon o amser i ymgynghorwyr ymateb.

Sut i ymateb

Gallwch e-bostio eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn i: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig, nodwch yn glir pa ymgynghoriad a pha gwestiynau rydych yn ymateb iddo/iddynt: **Gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau uchel iawn**

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig i:

Gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau uchel iawn,
Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhydycar, Merthyr Tudful, CF48 1UZ

Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad a chynnwys:

- eich enw,
- eich swydd (os yw'n gymwys),
- enw'r sefydliad (os yw'n gymwys),
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post),
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn cyswllt

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion
cyswllt**

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru drwy anfon neges e-bost i: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Am ragor o wybodaeth:
Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Swyddfeydd Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 062 8144

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	2 - 3
Y Dull Gweithredu Arfaethedig	3 - 11
Y Camau Nesaf	11

Cyflwyniad

1. Ar 17 Mai 2018, cyhoeddwyd adroddiad terfynol Adolygiad Annibynnol y Fonesig Judith Hackitt o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU. Mewn ymateb, gwnaeth y Gweinidog Tai ac Adfywio yr ymrwymiad canlynol yn ei datganiad ysgrifenedig:

Gwnaeth y Fonesig Judith osgoi cyfeirio at faterion penodol yn fwriadol, megis deunyddiau mewn systemau cladin. Roedd yn iawn i nodi bod methiannau sylfaenol o ran diwylliant a'r system reoleiddio yn gallu caniatáu i arferion anniogel barhau ac i gynhyrchion anniogel barhau i gael eu defnyddio, ac y bydd y methiannau hynny yn dod i'r amlwg mewn ffyrdd eraill oni eir i'r afael â nhw yn benodol. Ond ni allaf anwybyddu'r risgiau a'r pryder amlwg ymhlith y cyhoedd. Yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad i'r mater, sy'n ofyniad cyfreithiol, awn ati i wahardd y defnydd o ddeunyddiau llosgadwy mewn systemau cladin ar adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru.

Rydym wedi adolygu'r cynigion yn ymgynghoriad diweddar y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr, 'Banning the use of combustible materials in the external walls of high-rise buildings'. Down i'r casgliad bod y cwestiynau sylfaenol a ofynnwyd a'r camau gweithredu a gynigiwyd yn berthnasol i Gymru.

Cefndir

2. Mae Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i waliau allanol ar bob adeilad atal tân rhag lledaenu dros y waliau ac o un adeilad i adeilad arall yn ddigonol (Paragraff B4 o Atodlen 1). Mae canllawiau statudol yn Adran 13 o Ddogfen Gymeradwy B ar Ddiogelwch Tân Cyfrol 2 (Adeiladau heblaw Anhedd-dai) yn nodi dwy ffordd y gall waliau allanol fodloni gofyniad y Rheoliadau Adeiladu i atal tân rhag lledaenu:
 - Y gyntaf yw bod pob elfen unigol o'r wal yn cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer hylosgedd (ar hyn o bryd mae'r gofynion yn cael ei gosod yn ôl naill ai DU neu ddogbarthiadau Ewropeaidd gweler paragraffau 14-16)
 - Yr ail yw sicrhau bod holl elfennau wal gyda'i gilydd, pan gynhelir profion arnynt fel system osodedig gyfan, yn atal tân rhag lledaenu yn ddigonol yn unol â phrawf Safon Brydeinig BS 8414
3. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd ag Atodiad A i'r Ddogfen Gymeradwy sy'n amlinellu sut y dylid cynnal profion i asesu perfformiad deunyddiau, cynhyrchion a strwythurau ac sy'n sefydlu egwyddor asesiadau yn lle profion.
4. Ers tân Tŵr Grenfell bu llawer o drafod ynghylch cydymffurfiaeth a sut i ddehongli'r darpariaethau hyn. Yn yr un modd, mae rhai wedi dadlau nad yw prawf BS 8414 yn ddigon trylwyr. Mae Gweinidogion Cymru yn glynu wrth y cyngor a roddwyd gan

Banel Arbenigwyr Llywodraeth y DU y gellir ystyried bod systemau waliau sydd wedi cyrraedd BS 8414 yn ddiogel. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi gwrandao ar bryderon llawer o bobl nad yw cladin llosgadwy yn cael ei wahardd yn benodol o dan statud.

5. Mae adolygiad y Fonesig Judith Hackitt wedi nodi methiannau difrifol gan y diwydiant adeiladu a'r system reoleiddio ac mae wedi cynnig dull radical o fynd i'r afael â nhw. Bydd yn cymryd amser i wneud yr holl ddiwygiadau a ragwelir gan y Fonesig Judith Hackitt ac mae Gweinidogion Cymru, mewn ymateb i bryder y cyhoedd, o'r farn, yn ogystal â diwygiadau tymor hwy, fod hefyd achos dros weithredu ar unwaith mewn perthynas â lledaeniad tân allanol. Mae'r Fonesig Judith hefyd yn nodi, wrth ddewis rhwng cynhyrchion nad ydynt yn llosgadwy neu sydd â hylosgedd cyfyngedig ac sy'n destun profion system llawn, mai'r opsiwn risg is, "yn ddiau", yw defnyddio cynhyrchion nad ydynt yn llosgadwy neu sydd â hylosgedd cyfyngedig.
6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru yn adran 14 o Ddeddf Adeiladu 1984 i ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a buddiannau cynrychioliadol eraill ynghylch newidiadau arfaethedig i ofynion cynaliadwy y Rheoliadau Adeiladu.
7. Mae'r papur ymgynghori hwn yn ceisio barn ar osod gwaharddiad ar ddeunyddiau penodol. Byddwn hefyd yn cynnal asesiad manwl o effaith yn seiliedig ar y wybodaeth a gawn o'r ymgynghoriad hwn er mwyn llywio ein penderfyniad polisi terfynol.

Y Dull Gweithredu Arfaethedig

8. Fel y nodwyd uchod, ar hyn o bryd mae dwy ffordd o ddangos cydymffurfiaeth â gofynion y Rheoliadau Adeiladu yn Nogfen Gymeradwy B. Mae'r ail ddull – sef prawf BS 8414 – wedi hen ymsefydlu ac mae wedi cael ei ddatblygu dros sawl blwyddyn o dan nawdd y Sefydliad Safonau Prydeinig. Mae'r dull profi hwn hefyd yn cael ei gydnabod gan awdurdodaethau rhyngwladol eraill. Mae pryderon a fynegwyd yn ddiweddar ynghylch y prawf yn cael eu hystyried gan bwyllgor technegol perthnasol y Sefydliad Safonau Prydeinig. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â chynghor Panel Arbenigwyr Llywodraeth y DU bod systemau sydd wedi pasio prawf BS 8414 ac sydd wedi cael eu gosod a'u cynnal a'u cadw'n gywir ac sydd, felly, yn bodloni canllawiau'r Rheoliadau Adeiladu, yn cynnig ffordd ddiogel o sicrhau y bydd system wal yn atal tân rhag lledaenu.
9. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cydnabod y pryderon y byddai gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn ffordd symlach o fodloni gofynion y Rheoliadau na defnyddio prawf BS 8414. Nodwn hefyd farn y Fonesig Judith mai defnyddio cynhyrchion nad ydynt yn llosgadwy neu sydd â hylosgedd cyfyngedig yw'r opsiwn risg is, yn ddiau. Felly, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori ynghylch gwaharddiad a fyddai, o ganlyniad, yn dileu'r hyblygrwydd a gynigir i waith dylunio cladin gan brawf BS 8414 ar adeiladau preswyl uchel iawn.

10. Rydym yn ystyried gwneud y newid gan ddefnyddio deddfwriaeth drwy ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn cynnwys gwaharddiad penodol. Byddai methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad yn torri'r Rheoliadau Adeiladu. Gallai'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio gael eu herlyn yn y Llys Ynadon. Mae gan y Llys y pwerau i roi dirwyon amhenodol. Rydym wedi ystyried diwygio'r canllawiau yn y Ddogfen Gymeradwy fel dewis amgen i nodi pa ddeunyddiau y dylid eu defnyddio. Fodd bynnag, gan nad yw'r canllawiau mewn Dogfennau Cymeradwy yn orfodol ni fyddai cyflawni bwriad y polisi o waharddiad llwyr. Mabwysiadwyd y dull deddfwriaethol hwn o weithredu yng Nghymru pan gyflwynwyd systemau llethu tân awtomatig.

Cwestiwn 1

- a. A ydych yn cytuno y dylid gwahardd deunyddiau llosgadwy mewn systemau cladin?**
- b. A ddylid rhoi'r gwaharddiad ar waith drwy wneud newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu (h.y. drwy ddeddfwriaeth yn hytrach na Dogfennau Cymeradwy)?**
- c. Os na ddylid, ym mha ffordd arall y gellid cyflawni'r gwaharddiad?**

11. Byddai gwaharddiad hefyd yn dileu'r opsiwn i ddatblygwyr ddefnyddio asesiad yn lle prawf (y cyfeirir ato weithiau fel "astudiaeth bwrdd gwaith") i ddangos cydymffurfiaeth o ran lledaeniad tân allanol ar waliau allanol.

Adeiladau a gwmpesir gan y gwaharddiad

12. Canolbwyntiodd adolygiad Hackitt yn bennaf ar adeiladau preswyl uchel iawn a daeth i'r casgliad bod adeiladau â 10 llawr neu fwy yn drothwy addas. Yng Nghymru mae ein gwaith gydag adeiladau sy'n bodoli eisoes wedi canolbwyntio ar adeiladau 18m o uchder neu'n uwch gan mai'n alinio a chanllawiau Rhan B o'r Ddogfen Gymeradwy. Felly, rydym o'r farn ei bod yn gyson y dylai gwaharddiad ar gladin llosgadwy fod yn gymwys i adeiladau â lefel llawr sy'n 18m neu fwy o uchder. Rydym hefyd o'r farn, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, y dylai hyn fod yn gymwys i uchder y wal ar ei hyd.
13. Mewn adeiladau preswyl y mae tân yn peri'r risg fwyaf i fywyd. Mae tanau mewn anheddau yng Nghymru yn cyfrif am lai nag 20% o'r holl danau, ond mwy nag 80% o'r bobl sy'n cael eu hanafu neu eu lladd gan danau. Mae'n debygol bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod cartrefi yn cael eu meddiannau am fwy o amser na'r rhan fwyaf o adeiladau eraill ac yn cynnwys sawl ffynhonnell danio. Yng Nghymru, ers 2016 bu'n ofynnol i adeiladau preswyl newydd ac addasedig osod systemau llethu tân awtomatig (e.e. system chwistrellu). Mae adeiladau preswyl uchel iawn yn destun pryder penodol oherwydd y nifer fawr o bobl sy'n byw ynddynt a'r ffaith ei bod yn anodd eu hachub o'r lloiau uchaf. Mae'r risg o dân, ar y cyfan, yn is ar gyfer defnyddiau eraill o adeiladau megis gwestai a swyddfeydd. Felly, rydym o'r farn y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i flociau o fflatiau a defnyddiau tebyg o adeiladau megis cartrefi gofal a llety myfyrwyr. Mae hyn yn gyson i'r dull gweithredu

a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer systemau llethu tân awtomatig.

Cwestiwn 2.

A ydych yn cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys:

- a. i adeiladau sy'n 18m o uchder neu'n uwch?**
- b. Os nad ydych, i ba uchder (yn uwch neu'n is) y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys? Esboniwch pam.**
- c. i uchder y wal gyfan ar ei hyd, h.y. islaw ac uwchlaw 18m?**
- ch. i adeiladau preswyl uchel iawn yn unig?**
- d. Os nad ydych, a ddylai'r gwaharddiad hwn fod yn gymwys i adeiladau uchel iawn nad ydynt yn adeiladau preswyl, e.e. swyddfeydd ac adeiladau eraill, yn ogystal ag adeiladau preswyl?**

Y diffiniad o hylosgedd

- 14. Mae gwahardd deunyddiau llosgadwy yn gofyn am ystyried ystyr "llosgadwy" a pha ddeunyddiau na fyddent yn cael eu caniatáu mwyach mewn prosiectau adeiladu pe câi gwaharddiad ei osod.
- 15. Mae sawl dosbarthiad posibl ar gyfer hylosgedd a gâi eu defnyddio (dosbarthiad y DU, dosbarthiadau Ewropeaidd ac asesiadau rhyngwladol eraill). Ers sawl blwyddyn, bu'r DU wrthi'n trosglwyddo o ddosbarthiadau Safonau Prydeinig ar gyfer hylosgedd i'r system ddosbarthu Ewropeaidd. Mae'r canllawiau presennol yn Nogfen Gymeradwy B yn cynnwys cyfeiriadau ar y ddwy system ochr yn ochr â'i gilydd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n symlach cyfeirio at un system, gan nodi mai'r system Ewropeaidd fwy cyfredol yw'r un y dylid ei mabwysiadu.
- 16. Nodir y system Ddosbarthu Ewropeaidd ar gyfer hylosgedd yn BS EN 13501 ac mae'n dosbarthu cynhyrchion adeiladu o Ddosbarth A i Ddosbarth E drwy ddefnyddio cyfres o brofion. Deunyddiau Dosbarth A sy'n perfformio orau mewn tân; mae Dosbarth A yn ei dro yn rhannu'n ddau is-ddosbarth, sef Dosbarth A1 a Dosbarth A2¹. Rydym yn ystyried mabwysiadu A2 fel isafswm dosbarthiad derbyniol o dan y gwaharddiad arfaethedig.

¹Dosbarth A1 – Disgrifir cynhyrchion fel rhai nad ydynt yn cyfrannu o gwbl at dân ar unrhyw gam yn natblygiad y tân.

Mae EN13501 yn pennu trothwy o 2 MJ/kg pan gaiff ei brofi i EN ISO 1716

Dosbarth A2 – Disgrifir cynhyrchion fel rhai nad ydynt yn cyfrannu'n sylweddol at dân ar unrhyw gam yn natblygiad y tân. Mae EN13501 yn pennu trothwy o 3 MJ/kg pan gaiff ei brofi i EN ISO 1716

Cwestiwn 3.

- a. A ydych yn cytuno y dylid defnyddio'r system dosbarthu Ewropeaidd?**
- b. Os ydych, ydych yn credu bod Dosbarth A2 neu well yw'r dosbarthiad cywir ar gyfer y deunyddiau i'w defnyddio i adeiladu wal?**
- c. Os nad ydych, pa ddosbarth dylid caniatáu i adeiladu wal a pham?**

Diffinio cwmpas y gwaharddiad ar "gladin"

17. Cladin yw'r broses o haenu nifer o ddeunyddiau i ffurfio adeiladwaith allanol adeilad. Yn y diwydiant adeiladu, defnyddir cladin i ddarparu rhywfaint o inswleiddio thermol ac acwstig ac ymwrthedd i'r tywydd a gwella golwg adeiladau. Gellir ei osod ar adeilad newydd pan fydd yn cael ei adeiladu neu wrth wneud gwaith adnewyddu ar adeilad.
18. Y cynnig yw y dylid gwahardd deunyddiau nad ydynt yn bodloni gofynion A1 nac A2 rhag cael eu defnyddio yn waliau adeiladau sy'n 18m o uchder neu'n uwch. Fel arfer, mae'r wal allanol ar adeiladau o'r fath ar wahân i'r ffrâm strwythurol. Byddai'r gwaharddiad yn cwmpasu holl elfennau'r wal, gan gynnwys y ddalen fewnol, deunydd inswleiddio a'r ffasâd neu'r cladin sy'n darparu haen allanol y wal allanol.
19. Defnyddir amrywiaeth eang o dechnolegau i adeiladu waliau allanol adeiladau uchel nad ydynt, o bosibl, yn cael eu hystyried yn gladin bob amser. Mae pob technoleg yn cynnig dulliau gwahanol y gellid eu defnyddio i atal tân rhag lledaenu.
20. Gellid cyfyngu'r gwaharddiad i brif elfennau e.e.
 - Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm (ACM) â chraidd polyethylen
 - Cynhyrchion "sgrin law" llosgadwy
 - Cynhyrchion inswleiddio llosgadwy
21. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu bod modd ymgorffori deunyddiau llosgadwy eraill mewn waliau allanol a allai gyfrannu at ledaeniad tân o hyd. Ni fyddai hyn yn cyflawni'r bwriad polisi. Felly, rydym o'r farn, er mwyn i waharddiad fod yn effeithiol, y dylai gwmpasu mwy na dim ond arwyneb wal ac unrhyw ddeunyddiau inswleiddio ac, yn lle hynny, y dylai gwmpasu adeiladwaith y wal gyfan o wyneb mewnol y wal i'w hwyneb allanol.
22. At hynny, bu sefyllfaoedd hefyd lle mae'r deunyddiau a ddefnyddiwyd i adeiladu balconïau a sbandreli ffenestri wedi'u cysylltu â lledaeniad fertigol tân. Rydym o'r

farn y dylai gwaharddiad hefyd gynnwys elfennau tebyg o'r wal allanol/ffasâd ac ychwanegiadau at ei hwyneb allanol.

Cwestiwn 4.

- a. A ydych yn cytuno y dylai'r gwaharddiad gwmpasu adeiladwaith y wal gyfan?**
- b. Os nad ydych, pa agweddau ar y wal y dylai eu cwmpasu?**
- c. A ddylai gwaharddiad hefyd gwmpasu sbandreli ffenestri, balconïau, brise soleil ac elfennau adeiladu tebyg?**

Eithriadau

23. Os bydd y gwaharddiad arfaethedig ar ddefnyddio deunyddiau llosgadwy yn cwmpasu pob elfen o system y wal, fel yr awgrymwyd uchod, rydym o'r ymwybodol o'r ffaith y gall fod rhai elfennau o system y wal sydd eu hangen er mwyn i'r wal weithredu'n gywir a lle nad oes cynnyrch sy'n perthyn i Ddosbarth A1 na Dosbarth A2 ar gael.

Yn ein barn ni, efallai y bydd angen eithrio rhai elfennau o'r gwaharddiad o dan yr amgylchiadau canlynol:

- nid oes unrhyw ddewis amgen ymarferol i ddefnyddio deunyddiau nad ydynt yn perthyn i Ddosbarth A1 na Dosbarth A2;
- mae'r risg y byddai tân allanol a achoswyd gan y defnydd o ddeunyddiau llosgadwy yn lledaenu mor fach fel y byddai'n anghymesur gwahardd eu defnyddio

Gall hyn fod yn gymwys, er enghraifft, i bapur wal a phaent mewnol, fframiau ffenestri, gasgedi a seiliau, crwyn anwedd, gorffeniadau arwyneb a gwydr wedi'i lamineiddio.

Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch sut i ragnodi'r gwaharddiad mewn ffordd sy'n cyflawni ein bwriad polisi heb ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl i waliau gael eu hadeiladu, a hynny'n anfwriadol.

Cwestiwn 5.

- a. A ydych yn cytuno y dylai nifer gyfyngedig o elfennau system wal, drwy eithriad, fod yn esempt o'r gwaharddiad arfaethedig?**
- b. Os ydych, pa elfennau y dylid eu cynnwys ar restr o eithriadau a pha amodau y dylid eu gosod ar eu defnyddio?**
- c. Os nad ydych, pa ffordd arall o gyflawni'r nodau polisi y byddech yn ei hawgrymu?**

Cymhwyso'r gwaharddiad i adeiladau sy'n bodoli eisoes

- 24. Mae rheoliadau adeiladu yn gosod safonau ar gyfer gwaith adeiladu sydd i'w gyflawni; nid ydynt yn gosod gofynion ar adeiladau sy'n bodoli eisoes oni fydd y perchennog yn dewis gwneud gwaith sy'n sbarduno'r gyfundrefn reoleiddiol. Mae'r dull hwn o weithredu yn golygu y gall newidiadau i'r rheoliadau a'r safonau y maent yn eu gosod gael eu diwygio o bryd i'w gilydd yn unol â datblygiadau gwyddonol a thechnolegol heb osod beichiau ar adeiladau sy'n bodoli eisoes sy'n anghymesur â lefel y risg. Mae deddfwriaeth arall, megis y Gorchymyn Diogelwch Tân, yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelwch adeiladau sy'n bodoli eisoes gael ei reoli ar sail asesiadau risg rheolaidd.
- 25. Os bydd perchennog yr adeilad yn penderfynu gwneud gwaith ar adeilad sy'n bodoli eisoes a bod y gwaith yn dod o fewn cwmpas gwaith addasu sylweddol fel y'i diffinnir yn y rheoliadau, yna bydd gofynion y rheoliadau adeiladu, gan gynnwys y gwaharddiad arfaethedig, yn gymwys. Mae'n rhaid i waith adeiladu sy'n cael ei wneud fodloni gofynion technegol y rheoliadau ac ni ddylai'r effaith a gaiff y gwaith hwn olygu bod lefel cydymffurfiaeth gweddill yr adeilad yn is nad ydoedd cyn i'r gwaith gael ei wneud.
- 26. Ni fyddai'r gwaharddiad arfaethedig yn gymwys i adeiladau sy'n bodoli eisoes lle nad oedd unrhyw waith yn cael ei wneud. Yn yr achosion hyn, fel y nodwyd uchod, rydym o'r farn mai dull seiliedig ar risg o ymdrin â diogelwch tân mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes fesul achos sydd fwyaf priodol yn unol â'r cyngor a roddwyd gan Lywodraeth y DU a'i Phanel o Arbenigwyr, fel y cynigiwyd gan y Fonesig Judith yn ei hadroddiad.
- 27. Yn Lloegr mae Llywodraeth y DU wedi datblygu rhaglen diogelwch adeiladau er mwyn sicrhau diogelwch tân mewn blociau preswyl uchel iawn yn dilyn tân Tŵr Grenfell. Yn fuan ar ôl y tân, sefydlwyd Panel Cynghori Arbenigwyr Annibynnol Llywodraeth y DU i roi cyngor ar fesurau y dylai perchennogion adeiladau eu rhoi ar waith er mwyn gwneud adeiladau'n ddiogel. Wrth ddatblygu dull tebyg yng Nghymru, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru ganllawiau'r Panel o Arbenigwyr i berchenogion adeiladau sydd wedi'u gorchuddio â deunydd cyfansawdd alwminiwm anniogel (gan gynnwys ceisio eu cyngor arbenigol eu hunain) a oedd yn cynnwys rhoi mesurau diogelwch dros dro ar waith yn ogystal â chynlluniau ar gyfer unioni diffygion yn barhaol. (<https://www.gov.uk/government/collections/building-safety->

[independent-expert-advisory-panel](#)). Pan fo gwaith yn cael ei wneud ar systemau cladin i unioni diffygion, byddai'r gwaharddiad yn gymwys, yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol a nodir isod.

Trefniadau trosiannol

28. Rydym o'r farn y byddai angen darpariaethau trosiannol hefyd. Ni chât'r gwaharddiad ei gymhwyso at waith sydd eisoes yn mynd rhagddo ar y safle.
29. Os nad oedd gwaith wedi dechrau ar y safle ond bod yr awdurdod lleol wedi'i hysbysu am y gwaith arfaethedig (h.y. hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol a roddwyd i'r awdurdod lleol neu gynlluniau llawn a adneuwyd gydag ef yn unol â'r rheoliadau) cyn i'r gwaharddiad ddod i rym mae dau opsiwn, sef:
 - Peidio â chymhwyso'r gwaharddiad, a fyddai'n golygu y byddai rhai prosiectau adeiladu nad ydynt wedi dechrau eto pan gyflwynir y gwaharddiad yn gallu parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu presennol (mae pob deunydd yn perthyn i Ddosbarthiadau A1 neu A2 neu mae'r system gyfan yn cyrraedd BS 8414); neu
 - Cymhwyso'r gwaharddiad a fyddai'n golygu y byddai'r gwaharddiad yn gymwys i'r holl waith adeiladu yn y dyfodol o'r adeg y'i cyflwynir.

Credwn fod dadleuon cryf dros fabwysiadu'r dull gweithredu olaf a chymhwyso gwaharddiad at yr holl waith adeiladu yn y dyfodol

Cwestiwn 6.

A ydych yn cytuno:

- a. y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i addasiadau sylweddol arfaethedig i adeiladau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys trosgladin?**
- b. y dylai'r gwaharddiad gynnwys prosiectau y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn i'r gwaharddiad ddod i rym ond lle nad oes gwaith wedi dechrau ar y safle?**
- c. na ddylai'r gwaharddiad effeithio ar brosiectau lle mae gwaith adeiladu eisoes wedi dechrau?**

Materion Eraill

30. Bydd angen rhoi sylw i faterion eraill wrth ystyried gwaharddiad a byddem yn croesawu sylwadau arnynt:
 - Efallai y bydd yn anos cyrraedd safonau ar gyfer effeithlonrwydd ynni adeiladwaith os caiff rhai deunyddiau llosgadwy penodol eu gwahardd. Gallai hyn fod yn broblem benodol wrth adnewyddu adeiladau
 - Efallai y bydd cyflwyno gwaharddiad yn golygu bod llai o gyfleoedd i arloesi wrth ddatblygu rhai deunyddiau adeiladu
 - Yn olaf, mae'n hanfodol y caiff systemau eu cynllunio a'u gosod yn briodol yn unol â Rheoliadau Adeiladu a'r Canllawiau Cymeradwy

Asesu Effeithiau

31. Rydym yn ymwybodol y gallai newid i gyfundrefn reoleiddio ragnodol mewn perthynas â chyfyngu ar ddefnyddio deunyddiau llosgadwy wrth adeiladu waliau allanol gael effeithiau y tu hwnt i ddiogelwch tân y dylid eu hystyried.
32. Mae'n debygol mai ar adeiladau preswyl sy'n 18m o uchder neu'n uwch y bydd y newid arfaethedig yn effeithio fwyaf. Dros gyfnod bum mlynedd 2013-2018 y nifer cyfartalog o fflatiau wedi'u cwblhau yng Nghymru oedd 1413 (22% o holl breswyl newydd wedi'u cwblhau)². Blociau adeiladau uchel dros 18m yn amrywio o 7-18 llawr gyda 4 neu 6 fflat y llawr. Byddai hyn yn cyfateb i ystod o 13 i 50 o flociau pob flwyddyn. Ar gyfer yr adeiladau hynny sy'n defnyddio systemau wal allanol sydd wedi pasio prawf BS 8414, ond a all gynnwys elfennau nad oes ganddynt hylogedd cyfyngedig, mae'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn ei ymgynghoriad ar gyfer Lloegr, wedi amcangyfrif y bydd cost adeiladu ychwanegol nodweddiadol o rhwng £25,000-£ 75,000 yn gysylltiedig â system sydd ond yn cynnwys deunyddiau a hylogedd cyfyngedig. Mae hyn yn seiliedig ar adeilad cyfeirio a 15 llawr y mae angen 1700m² o gladin. Byddai defnyddio'r amcangyfrifon bras yma o'r gost uchod i Gymru yn awgrymu cost flynyddol cyffredinol dros brawf system BS 8414 oddeutu £0.33-3.30m.
33. Wrth symud ymlaen, credwn y bydd gweithgaredd adeiladau uchel iawn yn parhau i ganoli o amgylch coridor yr M4 ac o gwmpas y dinasoedd prifysgolion Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe. O'r rheini sydd eto i gael ei hadeiladu byddem yn disgwyl llawer, yn y tymor byr o leiaf, i fodloni gofynion y cynnig, fel datblygwyr, cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau, i weithredu datblygiadau diogelu at y dyfodol.

² Mae yna ychydig o bryder o'r ffordd mae data dechrau a chwblhau yn cael ei chofnodi a'i adrodd. Ni fydd hyn yn cynnwys pob llety myfyrwyr hunangynhwysol.

Cwestiwn 7.

- a. Ar ba elfennau o waliau y mae'r newid arfaethedig yn debygol o effeithio – h.y. pan fyddent yn pasio fel darn o system gladin mewn prawf BS 8414 ond na fyddent yn bodloni gofynion Dosbarth A2 neu ofyniad gwell (e.e. byrddau gorchuddio neu rwystrau anwedd)?**
- b. Yn Lloegr mae awgrymiadau, ers tân Tŵr Grenfell, fod cyfran fawr o'r gwaith adeiladu perthnasol eisoes yn defnyddio elfennau sy'n bodloni gofynion Dosbarth A2 neu ofyniad gwell. Beth yw eich profiad chi?**
- c. Pa effaith y bydd dileu mynediad i BS 8414 ar gyfer yr adeiladau hynny y bydd prawf y gwaharddiad yn effeithio arnynt yn debygol o'i chael.**
- ch. Faint o gost ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig fel arfer â bodloni'r gofynion newydd arfaethedig (ar gyfer adeiladau sy'n 18m o uchder neu'n uwch) yn erbyn adeilad sy'n bodloni'r gofynion presennol? (Rhowch unrhyw fanylion pellach.)**
- d. Rhowch unrhyw sylwadau pellach ar yr effaith y mae'r newid hwn yn debygol o'i chael ar y diwydiant adeiladu e.e. cadwyni cyflenwi.**

Y Camau Nesaf

- 34. Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu dadansoddi ym mis Medi/Hydref 2018 a bydd ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn.**